Dr Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru
Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pob Ymarferydd Cyffredinol
Rheolwyr Practisau
cc. GPC (Cymru)

15 Tachwedd 2018

Annwyl Gyfeillion

Brechiad MenACWY i bawb o 18 i 25 mlwydd oed

Ym mis Medi eleni ysgrifennais atoch i ofyn am eich cefnogaeth ar gyfer brechu myfyrwyr sy'n y flwyddyn gyntaf yn y brifysgol hyd at 25 mlwydd oed yn erbyn y clefyd meningococol ymledol, sy'n brin ond sy'n gallu peryglu bywyd.

Rwy'n ysgrifennu yn awr i ofyn am eich cefnogaeth i frechu **pawb** sy'n 18 i 25 mlwydd oed nad ydynt eisoes wedi cael y brechlyn. Nid yw 60% o oedolion ifanc yn y garfan hon wedi cael eu brechu.

Nod y rhaglen frechu MenC bresennol yw amddiffyn plant bach, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc yn uniongyrchol ac amddiffyn y boblogaeth ehangach hefyd yn anuniongyrchol, drwy sicrhau imiwnedd torfol. Mae'n hysbys mai pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc sy'n cario'r bacteria meningococol gan amlaf, a hynny yng nghefn eu trwynau a'u gyddfau.

O ganlyniad, mae ein rhaglen frechu ACWY meningococol (MenACWY) yn canolbwyntio ar y grŵp oedran hwn. Gan fod y brechlyn MenACWY yn amddiffyn yr unigolyn rhag cario'r bacteria, bydd nifer yr achosion lle trosglwyddir y bacteria ymlaen i blant ac oedolion sy'n agored i gael eu heffeithio yn lleihau yn sgil brechu cyfran uchel o'r rheini sy'n gymwys yn y grŵp oedran hwn.

Mae nifer yr achosion o MenC yn parhau'n isel ond mae cynnydd graddol wedi'i weld dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu yn credu, er mwyn cael y rheolaeth orau posibl ar y clefyd MenC, fod rhaid gwella lefel y brechu mewn pobl ifanc yn eu harddegau hwyr ac oedolion ifanc.

Rwy'n gwerthfawrogi eich bod chi'n brysur gyda'r rhaglen frechu rhag y ffliw ar hyn o bryd ond byddwn yn croesawu eich cefnogaeth i fanteisio ar gyfleoedd i frechu'r garfan hon. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun ar gyfer ennyn diddordeb yr oedolion ifanc yma a'u hannog i gael y brechiad.

Yn gywir

DR FRANK ATHERTON

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffôn / Tel: 029 2082 3911
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Ebost/Email:PSChiefMedicalOfficer@wales.gsi.gov.uk